Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Carwe
Ysgol Gynradd Carwe
Carwe
Cydweli
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA17 4HE

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2016**

**gan**

**Dorothy Morris**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 14/07/2016**

## Cyd-destun

Mae’r Cylch yn cyfarfod mewn ystafell ddosbarth yn Ysgol Gynradd Carwe, ym mhentref Carwe, ger Cydweli, Sir Gaerfyrddin. Mae ar agor pum bore’r wythnos am 42 wythnos y flwyddyn. Mae’n aelod cofrestredig o’r Mudiad Meithrin ac yn lleoliad Dechrau’n Deg.

Mae’r lleoliad wedi’i gofrestru i gymryd hyd at 30 o blant fesul sesiwn. Ar hyn o bryd, mae 15 o blant dwy a thair oed ar y gofrestr. Mae pedwar yn cael addysg y blynyddoedd cynnar wedi’i hariannu. Saesneg yw iaith y cartref i bron pob un o’r plant. Nid oes plant ag anghenion dysgu ychwanegol wedi’u nodi o fewn y garfan bresennol.

Mae tri aelod o staff yn cynnwys arweinydd ac arweinydd cynorthwyol. Maent i gyd yn brofiadol ac yn meddu ar gymwysterau addas ym maes addysg a gofal plant bach. Mae’r arweinydd wedi bod yn ei swydd ers 2002.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Tachwedd 2015 a chan Estyn ym mis Mehefin 2011.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella’r lleoliad | Da |

### Perfformiad presennol

Mae’r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae’r ymarferwyr yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu diddorol
- Mae’r addysgu da yn sicrhau mwynhad ac ymrwymiad gweithredol y plant yn eu dysgu
- Mae’r berthynas dda rhwng y plant a’r ymarferwyr yn hybu hyder y plant fel dysgwyr
- Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol y plant
- Mae defnydd pwrpasol o’r ardaloedd dysgu allanol
- Mae ymweliadau, a chyfraniad ymwelwyr yn cyfoethogi profiadau’r plant
- Mae’r lleoliad yn darparu amgylchedd hapus, gofalgar a chynhaliol i’r holl blant

### Rhagolygon gwella

Mae’r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- Mae’r arweinydd yn darparu cyfeiriad cadarn i waith y lleoliad
- Mae’r ymarferwyr yn ymrwymedig i’w rôl ac yn gweithio’n effeithiol fel tîm
- Mae gan yr arweinydd ddealltwriaeth sicr o gryfderau’r lleoliad a’r agweddau i’w gwella
- Mae’r cynllun datblygu yn cynnwys meysydd priodol ar gyfer gwelliant
- Mae’r ymarferwyr yn agored i syniadau a ffyrdd newydd o weithio er mwyn gwella’r ddarpariaeth
- Mae tystiolaeth o welliannau yn cael eu cyflwyno’n llwyddiannus
- Mae adnoddau yn cael eu defnyddio’n effeithiol i gefnogi’r dysgu
- Mae cysylltiadau cryf a chydweithio effeithiol gydag ystod o bartneriaid, yn cynnwys yr ysgol gynradd, rhieni a gofalwyr, a’r gymuned

## Argymhellion

A1 Datblygu'r cynllunio a gwneud mwy o ddefnydd o wybodaeth asesu i hyrwyddo medrau'r plant yn fwy systematig ar draws y meysydd dysgu

A2 Ehangu'r cyfleoedd i'r plant ddefnyddio eu medrau llafar Cymraeg yn fwy annibynnol yn eu gweithgareddau

A3 Datblygu'r trefniadau hunanarfarnu drwy ganolbwyntio mwy ar gynnydd a chyflawniad y plant

A4 Datblygu rôl strategol y pwyllgor rheoli

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Ddim yn berthnasol |
|---|---|

**Safonau: Ddim yn berthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Lles: Ddim yn berthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod eang o brofiadau sy'n llwyddo'n gyson i ennyn diddordeb y plant. Mae'r cwricwlwm wedi'i gynllunio o fewn cylch o themâu a thopigau sydd yn gweddu i ddiddordebau a lefel datblygiad y plant. Mae cyfleoedd addas i'r plant gyfrannu at y cynllunio drwy awgrymu gweithgareddau pellach.

Mae cynllunio'r ymarferwyr yn canolbwyntio'n briodol ar ddatblygu medrau dysgu'r plant. Cânt eu hymgorffori'n glir yn y gweithgareddau a gynllunnir. Er hyn, nid oes digon o sylw bob amser i sicrhau dilyniant cyson ym medrau'r plant ar draws y meysydd dysgu.

Mae cyfleoedd pwrpasol i'r plant ddefnyddio eu medrau llythrennedd a rhifedd. Yn ystod gweithgareddau grŵp, mae cyfleoedd rheolaidd i'r plant wrando ar storïau, chwarae rôl, ymuno mewn caneuon a rhigymau, a defnyddio eu medrau marcio. Mae defnydd adeiladol o weithgareddau dan arweiniad ymarferwyr i ddatblygu medrau rhif y plant drwy, er enghraifft, gemau cyfrif yn yr ardaloedd dysgu allanol. Mae'r cyfleoedd i'r plant i ddatblygu medrau mathemategol ehangach, megis medrau mesur, ac i ddefnyddio eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn fwy anwastad.

Mae cyfleoedd gwerthfawr i'r plant ddatblygu eu medrau ymchwiliol, creadigol a chorfforol. Maent yn cynnwys profiadau megis coginio, creu abwydfa, astudio cylch bywyd pili pala, tyfu ystod o lysiau, ac arbrofi gyda deunyddiau gwahanol yn eu gweithgareddau celf.

Hyrwyddir ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau a dathliadau Cymru yn llwyddiannus drwy weithgareddau yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Santes Dwynwen. Mae ymweliad â chastell Cydweli yn cyfrannu at ddatblygu ymwybyddiaeth y plant o nodweddion hanesyddol eu hardal.

Mae defnydd effeithiol o ymweliadau a chyfraniadau pobl o'r gymuned i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant. Maent yn cynnwys ymweliadau â llyfrgell y pentref, swyddfa bost a gorsaf y frigâd dân fel rhan o'r thema 'Pobl sy'n ein helpu'. Mae ymweliadau gan aelodau o'r heddlu, dynion ambiwlans, cogydd a nyrs yn llwyddo i ddatblygu gwybodaeth y plant am y rolau y mae pobl yn eu cyflawni yn eu cymuned.

Mae sylw da i ddatblygu dealltwriaeth y plant o'r angen i barchu a gofalu am yr amgylchedd a phopeth byw. Mae gweithgareddau cynhyrchiol yn cynnwys tyfu a gofalu am blanhigion, gweithgareddau ailgylchu, ac astudio nodweddion adar ac anifeiliaid gwahanol dan arweiniad arbenigwyr yn y maes.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth gadarn am ddatblygiad plant a gofynion y Cyfnod Sylfaen. Gwnânt ddefnydd effeithiol o ystod o ddulliau addysgu a llwyddir i gadw cydbwysedd addas rhwng gweithgareddau o dan gyfarwyddyd oedolion a'r gweithgareddau y mae'r plant yn eu dewis. Mae gweithgareddau yn cael eu paratoi yn ofalus ac mae defnydd adeiladol o'r adnoddau dan do ac yn yr ardaloedd dysgu allanol i gynorthwyo'r addysgu a'r dysgu.

Mae'r ymarferwyr yn creu amgylchedd dysgu hapus a chadarnhaol i'r plant. Maent yn ymuno'n egnïol yn y gweithgareddau. Mae sesiynau amser stori, er enghraifft, yn achlysuron bywiog ble mae plant yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau symbylus sy'n hyrwyddo eu dysgu yn effeithiol. Mae'r rhaglen o weithgareddau yn symud ar gyflymder da.

Yn ystod amser cylch, a gweithgareddau chwarae rôl, adeiladu a choginio, er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn siarad â'r plant yn gyson ac yn manteisio ar bob cyfle i ddatblygu eu geirfa. O ganlyniad i hyn, mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr Cymraeg ifanc yn dangos dealltwriaeth dda o gyfarwyddiadau a chwestiynau'r ymarferwyr. Fodd bynnag, nid oes digon o sylw bob amser i annog y plant i ddefnyddio'r eirfa a phatrymau brawddeg syml y maent yn eu dysgu yn fwy annibynnol yn eu gweithgareddau.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn medru trafod eu datblygiad cyffredinol a'u hanghenion dysgu yn fanwl. Maent yn arsylwi'r plant yn ofalus wrth eu gweithgareddau chwarae ac yn cofnodi sylwadau perthnasol. Mae defnydd addas o weithdrefnau asesu i olrhain datblygiad cyffredinol y plant ac i osod targedau personol iddynt. Mae defnydd llawn o wybodaeth asesu wrth gynllunio'r ddarpariaeth yn elfen sy'n parhau i ddatblygu.

Mae trefniadau effeithiol i hysbysu rhieni am ddatblygiad eu plant. Maent yn cynnwys trafodaethau anffurfiol, cyfarfodydd rhieni ac adroddiadau ysgrifenedig priodol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned ofalgar a threfnus. Mae polisïau a threfniadau i gefnogi iechyd a lles plant yn weithredol. Mae cyfleoedd da i godi ymwybyddiaeth plant o bwysigrwydd bwyta'n iach, hylendid personol ac ymarfer y corff. Mae bod yn

rhan o Gynllun Gwên a Chynllun Cyn-ysgol Iach, er enghraifft, yn cynorthwyo'r ymarferwyr i hyrwyddo ymwybyddiaeth plant o arferion da. Mae gwaith y lleoliad wedi cael ei gydnabod drwy ennill cystadleuaeth a drefnwyd gan gylchgrawn deintyddol cenedlaethol i greu poster i blant ar bwysigrwydd glanhau dannedd yn rheolaidd.

Mae'r trefniadau sefydlu, ynghyd â'r cyswllt dyddiol gyda'r rhieni/gofalwyr, yn sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n dda. Mae'r plant yn hapus yn y lleoliad ac yn gysurus yng nghwmni'r ymarferwyr. Gosodir disgwyliadau clir sy'n hyrwyddo ymddygiad da iawn.

Mae profiadau dysgu effeithiol yn hyrwyddo datblygiad personol y plant yn dda, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Hyrwyddir gwerthoedd, megis bod yn garedig ac ystyried eraill, yn effeithiol drwy'r cwricwlwm a'r gweithgareddau dyddiol. Mae adrodd gweddi cyn byrbryd, dathliadau diolchgarwch a gwaith ar stori'r Nadolig yn cyfrannu at ddatblygiad ysbrydol y plant yn briodol. Mae'r ymweliadau a'r cyfleoedd i ymuno mewn gweithgareddau gyda'r ysgol gynradd yn cyfrannu ymhellach at eu datblygiad cymdeithasol.

Mae cyfleoedd cynhyrchiol i'r plant ddysgu am ddiwylliannau a thraddodiadau pobl eraill. Maent yn cynnwys dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a gŵyl Divali drwy ystod o brofiadau addas yn cynnwys gweithgareddau coginio, celf a chrefft.

Mae trefniadau addas ar gyfer cefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, pan mae angen. Maent yn cynnwys llinellau cyfathrebu clir gydag asiantaethau allweddol megis gwasanaethau cefnogi sgiliau iaith a lleferydd.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i'r cwricwlwm ac i'r holl weithgareddau a ddarperir. Mae'r ymarferwyr yn ystyried ac yn gwerthfawrogi cefndiroedd amrywiol y plant ac yn gweithredu'n effeithiol yn unol â'r wybodaeth hon.

Mae nifer briodol o ymarferwyr profiadol i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen. Ar y cyfan, mae digon o adnoddau i gefnogi'r dysgu ar draws y meysydd dysgu. Mae'r ystod adnoddau TGCh yn fwy cyfyng.

Mae'r adeilad yn cynnig cyfleusterau pwrpasol. Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd llawn o'r lle dysgu drwy drefnu ardaloedd o weithgareddau amrywiol o amgylch yr ystafell. Mae samplau o waith plant yn cyfrannu at greu amgylchedd lliwgar sy'n cefnogi'r dysgu ymhellach. Mae'r ardal ddysgu awyr agored yn adnodd gwerthfawr ar gyfer gweithgareddau ymchwilio a chreadigol. Mae defnydd cynhyrchiol o gae chwarae'r ysgol ar gyfer ystod o weithgareddau yn cynnwys addysg gorfforol a thasgau datrys problemau. Mae'r adeilad yn lân a diogel.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinydd yn cynnig cyfeiriad cadarn i waith y lleoliad. Mae'r holl ymarferwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a gweithiant yn effeithiol fel tîm. Maent yn sefydlu perthynas gadarnhaol gyda'r plant, eu rhieni a gofalwyr, a holl bartneriaid y Cylch. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at yr ymdeimlad o gymuned o fewn y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn rhannu'r un gwerthoedd ac yn ymrwymedig i ddatblygiad a lles plant. Mae hon yn nodwedd gref. Mae gweithdrefnau dyddiol yn gweithio'n ddidrafferth a chaiff polisïau addas eu rhoi ar waith.

Mae'r pwyllgor rheoli yn dîm bychan ond yn gefnogol i'r lleoliad a'r ymarferwyr. Gyda chymorth yr arweinydd, mae'r pwyllgor yn rhoi sylw addas i ofynion cyfredol y lleoliad. Mae cydweithio da rhwng y swyddogion a'r rhieni yn arbennig ar gyfer gweithgareddau codi arian a'r boreau coffi a gynhelir. Mae'r ysgrifenyddes wedi cychwyn ar raglen o ymweliadau â'r lleoliad i arsylwi agweddau ar y ddarpariaeth. Mae hwn yn ddatblygiad cadarnhaol. Fodd bynnag, nid yw rôl y pwyllgor ym mhrosesau arfarnu a blaengynllunio'r lleoliad wedi'i datblygu'n llawn.

Mae gweithdrefnau addas mewn lle ar gyfer gwerthuso gwaith ac adnabod datblygiad proffesiynol pellach yr ymarferwyr.

Mae'r lleoliad yn rhoi sylw dilys i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn cynnwys gweithredu'r Cyfnod Sylfaen, hybu arferion byw'n iach, a gweithredu Siarter Iaith Gymraeg yr awdurdod lleol mewn cydweithrediad â'r ysgol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr arweinydd wybodaeth sicr am brif gryfderau'r lleoliad ac o'r meysydd i'w datblygu. Mae ystyriaeth deg i farn plant, staff, rhieni a phartneriaid eraill. Mae defnydd addas o arsylwadau'r arweinydd a thrafodaethau staff i arfarnu agweddau ar y ddarpariaeth. Mae cyfarfodydd staff wythnosol yn gyfnodau buddiol i drafod a chynllunio ar gyfer yr wythnos i ddilyn. Er hyn, nid oes digon o sylw bob amser i arfarnu cynnydd a chyflawniad plant.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn cynnig darlun cytbwys o'r ddarpariaeth. Mae'r cynllun datblygu sy'n deillio o hyn yn adnabod nifer o feysydd addas ar gyfer gwelliant. Maent yn cynnwys ymestyn medrau llythrennedd a rhifedd y plant. Mae'r cynllun yn cynnwys targedau clir, yn gosod amserlen, ac yn amlinellu adnoddau angenrheidiol. Caiff y cynllun newydd ei weithredu'n briodol.

Mae'r ymarferwyr yn agored i syniadau newydd er mwyn gwella'r ddarpariaeth. Mae tystiolaeth o welliannau mewn agweddau ar y ddarpariaeth megis datblygu'r ardal ddysgu allanol a chyflwyno cynllun penodol i ddatblygu medrau Cymraeg y plant. Mae'r datblygiadau hyn yn cynorthwyo'r dysgu ymhellach.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae perthynas gadarnhaol gyda'r rhieni a gofalwyr. Darperir gwybodaeth berthnasol iddynt drwy sgyrsiau dyddiol, yr hysbysfwrdd, posteri a chylchlythyron. Mae ymarferwyr ar gael yn rheolaidd i drafod ar ddechrau a diwedd y bore. Mae'r lleoliad yn annog rhieni a gofalwyr yn gryf i chwarae rhan weithredol yn addysg eu plant. Mae darparu sachau gweithgareddau i'w defnyddio yn y cartref yn ymgyrch adeiladol.

Mae cysylltiadau cryf gyda'r ysgol gynradd trwy ymweliadau gan y plant, trafodaethau gyda'r staff, y defnydd o'r cyfleusterau dysgu ar y safle, a'r cyfleoedd i fynychu digwyddiadau a drefnir gan yr ysgol. Mae'r bartneriaeth hon yn hyrwyddo trosglwyddiad esmwyth i'r plant i gam nesaf eu haddysg.

Mae partneriaeth lwyddiannus gydag ystod o asiantaethau i gefnogi'r plant a'r ymarferwyr yn ôl y galw. Mae'r ymarferwyr yn manteisio ar gymorth adeiladol swyddog cyswllt yr awdurdod lleol, swyddog Dechrau'n Deg a swyddog datblygu Mudiad Meithrin i wneud gwelliannau. Mae corff llywodraethol yr ysgol gynradd yn gefnogol iawn i'r lleoliad ac yn barod i gynorthwyo a darparu arweiniad pellach.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau buddiol gyda'r gymuned. Mae'r defnydd effeithiol o'r gymuned ar gyfer ymweliadau ac o gyfraniadau pobl sy'n byw yn lleol yn ymestyn profiadau dysgu'r plant yn llwyddiannus. Mae'r gymuned yn cynnig cefnogaeth dda i'r gweithgareddau codi arian a drefnir gan y lleoliad.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol. Mae defnydd effeithiol o amser a medrau unigolion i arwain gweithgareddau. Mae adnoddau yn cael eu defnyddio'n gynhyrchiol i hybu dysgu'r plant.

Mae'r ymarferwyr yn mynychu cyrsiau addas ar ofynion y Cyfnod Sylfaen ac ar agweddau ar ddatblygiad a gofal plant. Gwnânt ddefnydd priodol o'r hyfforddiant i hybu medrau iaith y plant, er enghraifft. Mae'r arweinydd yn gwneud defnydd buddiol o'r cyfleoedd i ymweld â lleoliadau eraill yn yr ardal i rannu profiadau. Yr oedd y cyfle i ymweld â lleoliadau yn yr Eidal i arsylwi dulliau addysgu a dysgu mewn gwlad arall yn brofiad gwerthfawr.

Mae gan yr arweinydd ddealltwriaeth glir o'r gyllideb. Mae gweithdrefnau perthnasol ar gyfer cynllunio ac adolygu gwariant. Mae'r pwyllgor yn blaenoriaethu gwariant yn unol ag anghenion y lleoliad. Mae defnydd effeithiol o fentrau codi arian i gefnogi ymweliadau ac i ychwanegu at yr adnoddau.

O ystyried ansawdd yr arweinyddiaeth, y profiadau dysgu a'r gofal a chymorth i blant, mae'r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i’r holiadur i rieni

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Dorothy Morris | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |